action for children gweithredu dros blant
Cymru

Credwch mewn plant
Barnardo's Cymru

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

NSPCC
CYMRU | WALES

Achub y Plant
Save the Children

Tros Gynnal Plant
Standing up for Children

Maniffesto Cenedlaethol Elusennau Plant ar gyfer Etholiadau Cynulliad Cymru 2016

Sicrhau newid i blant yng Nghymru

Ers datganoli, mae gan Gymru draddodiad cryf o greu polisïau sy'n canolbwyntio ar blant. Ond digon tameidiog fu'r ymateb polisi o saf-bwynt plant yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac nid yw'r mater yn cael cymaint o sylw erbyn hyn.

Mae Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) fel sail i bob polisi ar gyfer plant a phobl ifanc. Pwrpas Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 oedd sicrhau bod anghenion penodol a hawliau plant yn cael eu hystyried wrth wneud deddfwriaethau a pholisïau. Yn 2012, penderfynwyd peidio â chyflwyno Bil Plant a Phobl Ifanc (Cymru) i fwrw ymlaen â'r cynnydd hwn.

Rydym ni, fel elusennau plant cenedlaethol yng Nghymru, yn deall bod angen cryfhau'r blociau adeiladu sylfaenol i weithredu'r Mesur, i graffu ar y cynnydd ac i wireddu hawliau plant. Mae'r materion sy'n effeithio ar blant yn lleol ac yn genedlaethol yn cael eu rheoli mewn ffordd anghyson, ac mae hynny'n peryglu canlyniadau plant a phobl ifanc.

- Mae 1 o bob 3 phlentyn yng Nghymru yn byw mewn tlodi
- Mae plant yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru bron ddwy-waith yn fwy tebygol o farw o'u cymharu â phlant mewn arda-loedd cyfoethocach
- Ar ddiwedd 2014, amcangyfrifwyd nad yw 20.7% (53,700) o'r bobl ifanc rhwng 19 a 24 oed yng Nghymru mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Rydyn ni'n credu bod angen cryfhau'r trefniadau craffu a llywodraethu, gan gynnwys rhoi mwy o bwerau i Gomisiynydd Plant Cymru drwy ddeddfwriaeth, er mwyn sicrhau bod buddiannau plant yn cael blaeno-riaeth briodol mewn polisïau yng Nghymru. Rydym hefyd yn credu y byddai strwythurau o'r fath yn helpu'r rheini sy'n gweithio gyda phlant i weithredu'n gynharach pan fydd problemau yn dod i'r amlwg ac i sicrhau canlyniadau gwell i blant oherwydd byddai ganddynt fframwaith polisi cyson a chydlynol yn gefn iddynt.

Mae elusennau plant cenedlaethol yng Nghymru yn galw ar yr holl bleidiau gwleidyddol i gyflwyno'r blaenoriaethau canlynol i blant:

1 Strwythurau cadarn yn y Llywodraeth:

Gweinidog Plant sy'n goruchwylio holl feysydd polisïau plant Llywodraeth Cymru ac yn atebol amdanynt, a Phwyllgor Craffu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

2 Arwain camau gweithredu cadarnhaol yn lleol:

Arweiniad pendant gan bob rhan o Lywodraeth Cymru i sicrhau bod materion penodol plant a phobl ifanc yn rhan ganolog o'r gwaith o gynllunio a chyflwyno gwasanaethau ar lefel awdurdod lleol ac ar lefel ranbarthol.

3 Fframwaith cyfreithiol cadarn:

Bil Plant a Phobl Ifanc er mwyn:

- Datblygu a chryfhau'r gofyniad i roi sylw priodol i CCUHP
- Sefydlu a gwreiddio strwythurau cyfranogiad cadarn
- Sicrhau newidiadau drwy ddeddfwriaeth a chryfhau cylch gwaith Comisiynydd Plant Cymru, gan gynnwys atebolrwydd newydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a
- Sicrhau bod plant yn cael yr un warchodaeth gyfreithiol rhag ymosodiadau.

“I fod yn iach, mae angen i chi fwyta bwyd iach a chadw’n ffit drwy wneud chwaraeon. Fe fyddwn i’n hoffi mynd i nofio, ond dydw i ddim yn gallu cyrraedd yno.”

Plentyn sy’n dioddef oherwydd bod un o’i rieni yn y carchar, Caerdydd

“Ddylai neb fod o dan anfantais oherwydd ei gefndir.”

Disgybl ysgol uwchradd, Caerdydd.

“Rydw i’n poeni pwy fydd yn gofalu am fy nheulu i os bydda i’n mynd i’r brifysgol.”

Gofalwr ifanc, sir y Fflint.

“Fe ddylai pobl ifanc sydd ag anableddau dysgu gael yr un dewis â phobl ifanc eraill.”

“Dim ond llond llaw o gyrsiau sydd ar gael i ni, ond mae pawb arall yn cael dewis unrhyw beth.”

Pobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sir Benfro.

“Rydyn ni’n teimlo ein bod ni mewn limbo. Mae pob un ohonon ni eisiau cyfrannu at gymdeithas a datblygu ein hunain. Fe ddylen ni gael cyfleoedd i gael mynediad at addysg uwch sy’n cael ei ariannu ynghyd â gostyngiad yn y ffioedd.”

Person ifanc sy’n ceisio lloches, Caerdydd.

Danielle Cope
Cynghorydd Ymgyrchoedd, Eiriolaeth a Pholisi (Cymru)
Gweithredu dros Blant
07738 888729
danielle.cope@actionforchildren.org.uk

Dr Sam Clutton
Cyfarwyddwr Cynorthwol Polisi
Barnardo's Cymru
01639 620771
samantha.clutton@barnardos.org.uk

Sean O'Neill
Cyfarwyddwr Polisi
Plant yng Nghymru
029 2034 2434
sean.oneill@childreninwales.org.uk

Vivienne Laing
Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus
NSPCC Cymru/Wales
029 2010 8050
vivienne.laing@nspcc.org.uk

Rhea Stevens
Uwch Reolwr Polisi, Eiriolaeth
ac Ymgyrchoedd - Cymru
029 2080 3275
Symuddol: 07769 684370
r.stevens@savethechildren.org.uk

Rhiannon Beaumont-Walker
Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros dro
029 2039 6974
rhiannon.beaumont-walker@trosgynnalplant.org.uk